Papur 2 / Paper 2

# Ymateb CLlLC

**Dyddiad: 29 Hydref 2024**

## Teitl: Tystiolaeth CLlLC: Rôl, Llywodraethu ac Atebolrwydd y sector cynghorau cymuned a thref

**Derbynyddion:** Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

**Awdur:** Paula Walters, Pennaeth Dros Dro Polisi a Gwasanaethau Corfforaethol, Cerith Thomas, Swyddog Gwelliant (Gwasanaethau Democrataidd)
**E-bost:** paula.walters@wlga.gov.uk, Cerith.thomas@wlga.gov.uk

**Amdanom Ni**

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae'r tri awdurdod parc cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub yn aelodau cyswllt.

Mae CLlLC yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol, gydag arweinwyr pob awdurdod lleol yn penderfynu ar bolisi drwy'r Bwrdd Gweithredol a Chyngor ehangach CLlLC. Mae CLlLC hefyd yn penodi uwch aelodau fel Llefarwyr a Dirprwy Lefarwyr i roi arweinyddiaeth genedlaethol ar faterion polisi ar ran llywodraeth leol.

Mae CLlLC yn gweithio'n agos gydag ymgynghorwyr proffesiynol a chymdeithasau proffesiynol o lywodraeth leol ac mae'n cael cyngor ganddynt yn aml. Fodd bynnag, CLlLC yw'r corff sy'n cynrychioli llywodraeth leol ac yn darparu llais gwleidyddol cyfun i lywodraeth leol yng Nghymru. Ein nod yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau cynghorau yng Nghymru.

Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy:

a) Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
b) Sicrhau cymaint o ddisgresiwn lleol â phosibl o ran deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
c) Rhoi dadl dros gyllid hirdymor a chynaliadwy i gynghorau
d) Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
e) Annog democratiaeth leol fywiog, gan hybu mwy o amrywiaeth
f) Cefnogi Cynghorau i reoli eu gweithlu'n effeithiol.

**Cefndir**

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yw archwilio:

- Rôl a gwerth cynghorau cymuned a thref yng Nghymru;
- A yw'r sector yn addas i bwrpas mewn tirlun llywodraeth leol sy'n esblygu;
- Trefniadau llywodraethu a chraffu a'u heffaith ar atebolrwydd a thryloywder;

- Cwmpas technoleg ddigidol a newydd i wella dulliau gwneud penderfyniadau, darpariaeth gwasanaeth a chyfranogiad mewn prosesau democratiaeth leol;
- Sut mae grymoedd a chyfrifoldebau newydd ar gyfer yr haen hon o lywodraeth yn cael eu defnyddio i gefnogi cymunedau.

Mae CLlLC  wedi cytuno i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 14 Tachwedd 2024 i gefnogi ei Ymchwiliad i rôl, llywodraethu ac atebolrwydd y sector cynghorau cymuned a thref. Mae Clec y Pwyllgor wedi rhoi arweiniad defnyddiol o ran ble gall CLlLC ychwanegu gwerth i'r Ymchwiliad. Felly, bydd ein hymateb a'n tystiolaeth yn canolbwyntio ar agweddau'n ymwneud â safonau, yn cynnwys rhyngweithio gyda swyddogion monitro a phwyllgorau safonau awdurdodau lleol.

Yn y sesiwn dystiolaeth bydd:

- Y Cynghorydd Anthony Hunt, Arweinydd, Cyngor Torfaen
- Justine Cass, Dirprwy Swyddog Monitro a Chyfreithiwr, Cyngor Torfaen
- Clive Wolfendale, Cadeirydd Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol

Fodd bynnag, o ran Cylch Gorchwyl y Pwyllgor, cynigiwn y sylwadau a ganlyn am y berthynas rhwng CLlLC ac Un Llais Cymru a rôl bwysig cynghorau cymuned a thref yng Nghymru:

- Yng Nghymru, mae gan gynghorau tref a chymuned rôl hanfodol i gynrychioli buddion lleol a darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Er mai grymoedd cyfyngedig sydd ganddynt, nhw yw'r ffurf fwyaf lleol o lywodraeth ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd bywyd a chynrychiolaeth ddemocrataidd trefi bychan ac ardaloedd gwledig yng Nghymru.

- Nid oes gan CLlLC rôl uniongyrchol gyda chynghorau cymuned a thref ond mae'n gweithio'n agos gydag Un Llais Cymru fel corff cynrychioladol cenedlaethol cynghorau cymuned a thref.

- Mae perthnasoedd awdurdodau lleol gyda chynghorau cymuned a thref yn amrywio'n sylweddol, mae gan rai berthnasoedd effeithiol sy'n seiliedig ar ryngweithio rheolaidd, anffurfiol ac mae eraill wedi'u tanategu gan gytundebau neu siarteri ffurfiol, Cytundebau Lefel Gwasanaeth ac yn cyfarfod yn rheolaidd drwy fforymau cyswllt ar y cyd. Mae CLlLC ac Un Llais Cymru yn annog datblygiad siarteri i roi eglurder rhwng y ddau bartner lleol am ddisgwyliadau ymgysylltu a phartneriaeth yn ogystal ag annog dealltwriaeth ar y cyd o rôl a dyheadau'r naill a'r llall.

- Dadl barhaus CLlLC yw bod yn rhaid i wasanaethau cyhoeddus lleol gael eu darparu o fewn fframwaith democrataidd ac mai'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau yw pan mae'r rhai sy'n eu defnyddio yn cael eu cynnwys yn

uniongyrchol yn y ffordd maent yn cael eu darparu, eu rheoli a'u cynllunio. Llywodraeth leol yw'r haen o lywodraeth sydd agosaf at ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus a dylid grymuso cynghorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny'n fwy effeithiol ac effeithlon yn ystod y blynyddoedd nesaf.

- Mae cynghorau wedi dangos hyblygrwydd, arloesedd, cadernid ac ymatebolrwydd, yn enwedig yn ystod pandemig COVID. Amlygodd yr argyfwng allu cynghorau i ymateb a chadarnhau pwysigrwydd sybsidiaredd a lleoliaeth, gydag aelodau etholedig a'r gweithlu â'u gwreiddiau'n ddwfn yn eu cymunedau lleol.

Gellir crynhoi swyddogaethau cynghorau cymuned a thref i'r rolau allweddol hyn sy'n ymgorffori ehangder y gweithgareddau maent yn eu darparu:

- **Cynrychiolaeth Gymunedol a llais y gymuned** - maen nhw mewn lle da i roi llais i'w cymunedau, er eu bod yn gwneud hyn ochr yn ochr â chynghorwyr sir a grwpiau cynrychioladol eraill. Mae cynghorau'n eirioli dros eu cymunedau mewn trafodaethau gyda chynghorau sir, Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill, gan sicrhau bod blaenoriaethau lleol yn cael eu hystyried mewn cynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol ehangach.

- **Llunio Lle, ymgysylltu â'r gymuned a darparu catalydd ar gyfer datblygiad cymunedol** - mae gan gynghorau a chynghorwyr rôl allweddol i ddod â grwpiau cymunedol a phartneriaid at ei gilydd, i siapio'r gymuned, mynegi uchelgais a datblygu gweledigaeth ar gyfer y gymuned. Mae cynghorau'n ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio lleol. Mae hyn yn golygu eu bod yn rhoi mewnbwn ar geisiadau, yn aml gan eirioli dros ddatblygiadau sy'n cyd-fynd â buddion lleol neu'n gwrthwynebu prosiectau a allai niweidio cymunedau neu adnoddau'r gymuned.

- **Darparu gwasanaethau cymunedol a neu reoli asedau cymunedol** - mae uchelgais a gallu cynghorau i gyflawni yn amrywio'n fawr, ond mae llawer ohonynt yn archwilio dulliau o gynnal neu wella ystod o wasanaethau cymunedol. Mae lefel y gwasanaethau a ddarperir gan y cynghorau hyn yn amrywio ar hyd a lled Cymru a thra bod llawer yn fodlon gweithredu mewn rôl gynrychioladol yn bennaf, mae llawer hefyd yn darparu ystod o wasanaethau ar ran y gymuned, megis:
  - cynnal a chadw neuaddau cymunedol
  - llochesi bws
  - mannau cyhoeddus
  - meysydd chwarae
- **Cefnogi Lles a Chydlyniant Cymunedol** - mae cynghorau tref a chymuned yn aml yn trefnu neu gefnogi digwyddiadau sy'n cryfhau hunaniaeth y gymuned,

megis ffeiriau, carnifalau a gwyliau diwylliannol. Mae cynghorau'n rhoi grantiau i grwpiau cymunedol, clybiau chwaraeon a sefydliadau llawr gwlad eraill yn aml, i gefnogi cydlyniant cymunedol a gwella ansawdd bywyd preswylwyr.

- **Galluogi Democratiaeth Gyfranogol** - mae cynghorau cymuned a thref yn annog cyfranogiad dinasyddion drwy wahodd preswylwyr i gyfarfodydd, i leisio barn a hyd yn oed sefyll mewn etholiadau. Mae hyn yn meithrin synnwyr o berchnogaeth ac atebolrwydd yn y gymuned. Yn ystod argyfyngau, megis y pandemig COVID-19, roedd gan gynghorau ran allweddol mewn cydlynu cefnogaeth i breswylwyr diamddiffyn, gan ddangos eu gwerth mewn gwella cadernid lleol.

Mae llawer o gynghorwyr mewn rhannau o Gymru hefyd yn gynghorwyr tref neu gymuned yn eu hardal. Mae'n bwysig bod cynghorwyr a chynghorwyr tref a chymuned yn cydweithio i gynrychioli eu cymunedau a bod cynghorau a chynghorau cymuned a thref hefyd yn cael eu hannog i weithio'n agos a gallant gynnal cyfarfodydd cyswllt rheolaidd a sefydlu protocolau ar drefniadau cyfathrebu ac ymgynghori.

Yn genedlaethol, mae CLlLC ac Un Llais Cymru yn cydweithio i hyrwyddo democratiaeth leol ac annog gwaith partneriaeth a rhannu arfer da rhwng cynghorau lleol. Yn 2013, cytunodd CLlLC ac Un Llais Cymru ar Femorandwm o Ddealltwriaeth, sy'n adlewyrchu llawer o'r egwyddorion ymgysylltu a phartneriaeth sy'n rhan o gytundebau Siarter lleol (Atodiad A).

Mae'r Memorandwm o Ddealltwriaeth wedi cael ei ddiwygio'n ddiweddar a chafodd ei lansio yng Nghynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru ym mis Hydref 2024. Mae'r Memorandwm o Ddealltwriaeth yn nodi sut bydd CLlLC ac Un Llais Cymru yn cydweithio i hyrwyddo democratiaeth leol a gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy yng Nghymru.

**CLlLC - Cefnogi cynghorau yng Nghymru i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad.**

<u>Cod Ymddygiad</u>

Mae cynghorwyr mewn prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref yn gorfod cydymffurfio â chod ymddygiad a gynlluniwyd i hyrwyddo safonau moesegol a chywirdeb uchel mewn swydd gyhoeddus, gan sicrhau bod cynghorwyr yn ymddwyn yn gyfrifol, yn dryloyw ac er pennaf les y cyhoedd. Amlinellir y cod dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 a darparir arweiniad ychwanegol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i achosion o dorri'r Cod Ymddygiad ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu cyfeirio at Bwyllgor

Safonau'r cyngor neu Banel Dyfarnu Cymru. Gall sancsiynau am dorri'r cod amrywio o gerydd neu wahardd, i ddiarddel o'r swydd, yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr achos.

Pwyllgorau Safonau

- Mae Pwyllgorau Safonau wedi bod yn rhan ffurfiol o lywodraeth leol Cymru ers y 2000au cynnar. Cawsant eu llywio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, darn o ddeddfwriaeth y DU gyda'r nod o hyrwyddo safonau moesegol ar draws cyrff cyhoeddus, nid yn unig yng Nghymru ond yn Lloegr hefyd. Gosododd y Ddeddf fandad ar gynghorau lleol i fabwysiadu codau ymddygiad a sefydlu pwyllgorau safonau annibynnol i'w goruchwylio.
- Mae Pwyllgorau Safonau prif gynghorau'n cynnal safonau moesegol uchel ymhlith eu haelodau eu hunain ac aelodau cynghorau cymuned a thref, ac yn eu helpu i gadw at eu cod ymddygiad. Mae ganddynt rôl allweddol i sicrhau tryloywder, atebolrwydd ac ymddiriedaeth mewn swydd gyhoeddus.
- Yn gyffredinol, mae Pwyllgorau Safonau yng Nghymru yn cynnwys cymysgedd o aelodau etholedig, aelodau annibynnol (dinasyddion heb gysylltiadau gwleidyddol yn aml), ac weithiau aelodau o gynghorau tref a chymuned, gan roi safbwynt cytbwys a lleihau gwrthdaro buddiannau.

Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol

Er mwyn annog dull cyson a mabwysiadu arfer gorau ar hyd a lled Cymru, sefydlwyd Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol. Pwrpas y Fforwm yw rhannu arfer gorau a dulliau datrys problemau o ran gwaith y Pwyllgorau Safonau yng Nghymru.

Fe'i sefydlwyd yn dilyn argymhelliad yn adroddiad Penn ar y drefn fframwaith moesegol yng Nghymru. Gwnaeth yr adroddiad sylwadau ar amrywiaeth yr arferion yng Nghymru o ran sut mae'r pwyllgorau safonau yn gwneud eu gwaith.

**Cyfansoddiad** - mae'r Fforwm yn gymdeithas aelodau gwirfoddol i Gadeiryddion Pwyllgorau Safonau awdurdodau lleol yng Nghymru, 3 Cyd-bwyllgor Corfforedig, y 3 awdurdod Tân ac Achub a'r 3 parc cenedlaethol. Dewisir y Cadeirydd ac Is-Gadeirydd gan aelodau'r Fforwm.

**Trefniadau cyfarfodydd y Fforwm** - darperir y gefnogaeth ysgrifenyddol gan CLlLC, fe'i cynghorir yn wirfoddol gan Ddirprwy Swyddog Monitro a chynhelir y cyfarfodydd ar-lein bob 6 mis. Cynigir eitemau ar gyfer y rhaglen gan y Grŵp Llywodraethu Swyddogion Monitro ac aelodau'r Fforwm. Mae'r Fforwm hefyd yn cael diweddariadau ar lafar a chyflwyniadau ar faterion perthnasol sy'n ymwneud â safonau gyda'r bwriad o ddatblygu a chefnogi cadeiryddion pwyllgorau safonau'n barhaus. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar achosion cod ymddygiad. Gall y cadeiryddion rannu nodiadau'r cyfarfodydd â'u pwyllgorau safonau. Maent yn ddienw i sicrhau na ellir adnabod aelodau a chynghorau unigol.

**Ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned ac Un Llais Cymru** - mae Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau wedi mynychu cyfarfodydd cynghorau cymuned a

thref mewn sawl ardal fel rhan o'u dyletswydd i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel. Mae'r Fforwm yn eu galluogi i rannu eu profiadau ac arfer gorau. Mae'r Fforwm wedi ymgysylltu ag Un Llais Cymru, y prif sefydliad ar gyfer cynghorau cymuned yng Nghymru, ac wedi cael cyflwyniad gan Paul Egan, Dirprwy Brif Weithredwr y gymdeithas ar:

- Wybodaeth am y gefnogaeth a gynigir gan Un Llais Cymru i'w gynghorau tref a chymuned.

- Yr adnoddau a'r gefnogaeth a gynigir i Gynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â safonau ymddygiad.

- Yr hyfforddiant a gynigir ar y Cod Ymddygiad i Aelodau, gan gynnwys dulliau darparu, amlder y sesiynau, a'r costau.

- Y gefnogaeth a gynigir i glercod ac aelodau cynghorau tref a chymuned mewn perthynas â gweithdrefn ddatrys leol a gaiff ei hannog gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae'r strwythur gwirfoddol sydd ar waith wedi galluogi'r Fforwm i drafod dulliau datrys problemau ac arfer gorau ymhlith y cadeiryddion, ac mae'r gwersi a ddysgwyd wedi cael eu rhannu ag aelodau eu pwyllgorau safonau.

Mae rhai enghreifftiau o'r gweithgareddau dysgu a datblygu a drefnwyd gan aelodau'r Fforwm yn cynnwys:

- Cyflwyniad i'r Fforwm gan Yr Athro Mark Philp, Cadeirydd y Bwrdd Ymchwil ac Ymgynghorol ar gyfer y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus
- Sgiliau cadeirio gan Swyddog Gwella CLILC
- Cyd-bwyllgor Corfforedig - Fframwaith moesegol ac is-bwyllgorau safonau gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro o'r Grŵp Hyfforddiant Swyddogion Monitro ar wrandawiadau ymddygiad gan ymarferydd cyfreithiol cymwys o GOVTC, darparwr hyfforddiant llywodraethu i lywodraeth leol
- Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Michelle Morris yn mynychu holl gyfarfodydd y Fforwm i roi diweddariad ar waith achosion i aelodau
- Ym mis Mehefin 2024, rhannodd Cadeirydd Panel Dyfarnu Cymru, y Barnwr Claire Sharp, y meysydd y mae hi'n canolbwyntio arnynt wrth benderfynu caniatáu apêl yn erbyn penderfyniad gan bwyllgor safonau a diffygion cyffredin
- Ar gais y Fforwm, cyflwyniad gan Paul Egan, Dirprwy Brif Weithredwr Un Llais Cymru ar y meysydd a amlinellwyd uchod.

Grŵp Tasg a Gorffen Iechyd Democrataidd

Mae CLlLC hefyd wedi cefnogi'r Grŵp Tasg a Gorffen Iechyd Democrataidd a sefydlwyd mewn datganiad ysgrifenedig ar 26 Ebrill 2023 gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd, Rebecca Evans AS. Sefydlwyd y grŵp wedi i ddadansoddiad o etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru ym mis Mai 2022 ddatgelu pryderon am yr ymgysylltu rhwng cymunedau a'u cynghorau.

- Dim ond mewn 22% o'r 7,883 sedd y bu etholiad.
- Roedd 62% o'r seddi yn ddiwrthwynebiad, sy'n golygu na chafwyd etholiad.
- Ni chafodd 16% o'r seddi eu llenwi, i gael eu llenwi drwy etholiad arall neu gyf-ethol.

Cylch gorchwyl y grŵp oedd:

- Gwella ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad rhwng cymunedau a'u cynghorau cymuned, a
- Cynyddu nifer ac amrywiaeth yr ymgeiswyr oedd yn sefyll mewn etholiadau ar gyfer cynghorau tref a chymuned.

Byddai'r grŵp yn ymuno â'r gwaith oedd ar y gweill ar ddiwygio etholiadau a gwella amrywiaeth mewn democratiaeth. Mae'r Grŵp yn cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymru ac ymhlith yr aelodau eraill mae:

- Cadeirydd Un Llais Cymru
- Prifysgol Caerdydd
- Prif swyddog Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
- Busnes yn y Gymuned Cymru
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Cefnogwyd y grŵp gan swyddogion o Lywodraeth Cymru, Un Llais Cymru a swyddog o Dîm Gwella CLlLC. Roedd i fod i ymateb cyn pen 9 mis i ddechrau, ond cafodd hyn ei ymestyn er mwyn iddo gasglu rhagor o dystiolaeth i lywio ei adroddiad ac rydym ar ddeall y bydd yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog yn ystod mis Hydref 2024.

Mae'n debygol y bydd y Gweinidog yn ystyried yr adroddiad terfynol yn ystod yr Hydref. Oherwydd y tebygrwydd rhwng ei gylch gorchwyl a'r alwad am dystiolaeth gan ymchwiliad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru i rôl, llywodraethu ac atebolrwydd y sector cynghorau cymuned a thref, mae'n bosibl bod cyfle i fanteisio ar y gwaith sydd wedi'i wneud yn y maes hwn. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd y Pwyllgor eisoes yn ymwybodol o hyn efallai ac yn sôn amdano yma er mwyn bod yn gyflawn.